# Cwestiynau i’ch helpu i ddewis yr ateb priodol ar gyfer storio archifau

Nodwch eich atebion ar gyfer pob cwestiwn yn y meysydd testun pwrpasol.

## 1. Sut fathau o ddata ydych chi eisiau eu cadw?

Meddyliwch am gynnwys, cyd-destun a gwerth eich data.

## 2. Pam ydych chi eisiau cadw’r data hwn?

At ddibenion gwaith cyfredol, er mwyn cydymffurfio â’r gyfraith neu er budd cadwedigaeth hanesyddol?

## 3. Am ba hyd y byddwch angen ei gadw?

Yn y tymor byr, yn y tymor hir ynteu am byth?

## 4. Pwy fydd angen cael gafael ar y data?

Staff a gwirfoddolwyr yn unig? Ynteu a ydych eisiau sicrhau y bydd ar gael i ymchwilwyr allanol?

## 5. O ble y byddant yn dymuno cael gafael arno?

A ydych eisiau i bobl allu cael gafael ar eich data ar-lein ynteu ar y safle?

## 6. Pa mor aml a pha mor sydyn y mae eich sefydliad angen adalw data?

Ystyriwch y tro diwethaf y cawsoch afael ar eich data a siaradwch â pherchnogion y data er mwyn deall eu hanghenion o ran cael gafael ar ddata.

## 7. Beth yw eich cyllideb ar gyfer storio data archifol?

Ystyriwch a yw eich sefydliad yn darparu ar gyfer treuliau misol parhaus mewn perthynas â gwasanaethau a storio ar y cwmwl. Hefyd, ystyriwch gostau caledwedd ar gyfer storio data ar y safle, meddyliwch am gostau staff a chostau ynni ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

## 8. Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r caledwedd storio ac am archifo eich data?

Os dewiswch storio data ar y safle, megis ar ddisgyrwyr neu dâp-yrwyr, gwnewch yn siŵr fod cymorth technegol ar gael i'ch sefydliad.